# Therapi hylif mewnwythiennol ar gyfer plant a phobl ifanc yn yr ysbyty

Rhagfyr 2015

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

**Mae canllawiau NICE yn rhoi cyngor ar y gofal a'r cymorth a ddylai gael eu cynnig i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal.**

Mae NICE yn rhoi cyngor i feddygon, nyrsys ac aelodau eraill o staff ynglŷn â sut i ofalu am bobl â gwahanol gyflyrau iechyd. Mae'r wybodaeth hon yn cyfeirio at y gofal sy'n gweithio orau i blant a phobl ifanc sydd yn yr ysbyty ac mae angen hylifau mewnwythiennol arnynt. Mae hylifau mewnwythiennol yn hylifau a chwistrellir yn uniongyrchol i wythïen (fe'u gelwir yn aml yn hylifau 'IV' neu'n 'beiriant diferu'). Dylai eich tîm gofal iechyd wybod beth mae NICE wedi'i ddweud.

Bydd y wybodaeth hon yn dweud wrthych pa ofal y dywed NICE y dylech ei ddisgwyl ac yn eich helpu i ofyn cwestiynau amdano. Ni fydd yn dweud llawer wrthych am sut beth yw cael hylifau IV. Ac ni fydd yn dweud wrthych am unrhyw broblemau iechyd sy'n golygu bod angen i chi gael hylifau IV. Bydd eich tîm gofal iechyd yn egluro hyn oll ac yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

### *Pwy ddylai ei darllen*

Mae'r wybodaeth hon ar gyfer plant a phobl ifanc sydd yn yr ysbyty ac y mae angen iddynt gael hylifau IV.

Mae'n bwysig eich bod chi a'ch rhieni neu ofalwyr eraill yn gwybod am y driniaeth y dylech ei chael.

Rydym wedi ysgrifennu'r wybodaeth hon ar gyfer rhieni, gofalwyr a phlant hŷn a phobl ifanc (12-16), ond mae'r wybodaeth yn berthnasol i bob plentyn dan 16 oed sydd yn yr ysbyty ac y mae angen iddo gael hylifau IV.

Rhieni a gofalwyr: Mae'n bwysig iawn eich bod yn darllen y wybodaeth hon hefyd fel eich bod yn gwybod am y driniaeth a'r gofal y dylai'r plentyn rydych yn gofalu amdano ei gael.

## Beth yw hylifau mewnwythiennol?

Mae dŵr, siwgr a halen yn bwysig er mwyn helpu'r corff i weithredu. Mae hylifau mewnwythiennol (a elwir yn hylifau 'IV' fel arfer) yn hylifau a roddir i wneud iawn am unrhyw ddŵr, siwgr a halen a gollwyd y gallai fod eu hangen arnoch os ydych yn sâl neu'n cael llawdriniaeth ac na allwch fwyta nac yfed fel y byddech yn ei wneud fel arfer. Rhoddir hylifau IV yn uniongyrchol i mewn i wythïen drwy beiriant diferu.

Mae gwneud yn siŵr bod pawb yn yr ysbyty yn cael y swm cywir o hylifedd yn bwysig iawn i sicrhau gofal cleifion da. Tra eich bod yn cael therapi IV, dylech gael eich monitro'n rheolaidd.

Dylid rhoi'r gorau i hylifau IV pan fyddwch yn gallu bwyta ac yfed yn y ffordd arferol.

## Pwy fyddaf yn ei weld?

Bydd gennych dîm o bobl yn gofalu amdanoch. Bydd meddygon a nyrsys yn cymryd rhan yn y broses o roi hylifau IV i chi, monitro sut rydych chi a sicrhau eich bod yn cael yr hylifau cywir.

Mae rhestr o gwestiynau y gallwch eu defnyddio i'ch helpu i siarad â'ch tîm gofal iechyd.

## Cael hylifau IV

Os oes angen hylifau IV arnoch rhoddir nodwydd i mewn i wythïen, fel arfer yn eich llaw neu'ch braich. Cysylltir y peiriant diferu â'r nodwydd  hon a rhoddir yr hylif yn uniongyrchol i'r llif gwaed.

## Yn ystod therapi hylif IV

Dylai eich tîm gofal iechyd esbonio i chi a'ch teulu neu'ch gofalwyr pam bod angen hylifau IV arnoch, beth fydd yn digwydd, pa hylifau sydd eu hangen ac am ba hyd. Dylid ychwanegu'r wybodaeth hon at eich nodiadau meddygol.

Pan fyddwch yn cael hylifau IV, dylai eich tîm gofal iechyd eich monitro'n rheolaidd a chofnodi'r holl wybodaeth ar y siart yn eich nodiadau meddygol. Byddant yn sicrhau eich bod yn cael y math cywir a'r swm cywir o hylif. Bydd angen i'ch tîm gofal iechyd wybod pa mor aml rydych yn mynd i'r toiled a faint o ddŵr rydych yn ei basio a'ch pwyso ac fel arfer bydd yn cynnal profion gwaed ac wrin. Cewch eich monitro'n ofalus er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn cael y swm cywir o hylif (dim gormod a dim llai na'r lefel ofynnol) a bod y cydbwysedd rhwng dŵr, siwgr a halen yn gywir.

Mae'n bwysig sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng hylifau. Bydd eich tîm gofal iechyd yn edrych am unrhyw arwyddion a allai olygu nad ydych yn cael digon o hylif, neu eich bod yn cael gormod o hylif, neu symptomau a allai olygu bod angen newid cydbwysedd hylifau.

Os byddwch yn sylwi ar unrhyw un o'r arwyddion hyn neu os byddwch yn pryderu mewn unrhyw ffordd, siaradwch â'ch tîm gofal iechyd. Dylai gwybodaeth ysgrifenedig, er enghraifft taflenni gwybodaeth, fod ar gael hefyd i chi a'ch teulu neu'ch gofalwyr.

## Arwyddion a allai olygu nad ydych yn cael digon o hylif neu eich bod yn cael gormod o hylif neu fod cydbwysedd hylifau yn anghywir

### *Arwyddion a allai olygu nad ydych yn cael digon o hylif*

- Teimlo'n sychedig.
- Ddim yn pasio llawer o wrin, mae eich wrin yn dywyll ac yn arogli'n gryf.
- Ceg sych neu ludiog, tafod blewog, gwefusau wedi cracio.
- Teimlo'n benysgafn, yn arbennig pan fyddwch yn sefyll.

### *Arwyddion a allai olygu eich bod yn cael gormod o hylif*

- Pasio llawer o wrin.
- Teimlo'n brin eich anadl, yn enwedig pan fyddwch yn gorwedd.
- Chwyddo, yn enwedig o amgylch eich wyneb a'ch pigyrnau. Gall hyn fod yn ddifrifol, felly os ydych yn credu bod problem, dywedwch wrth feddyg neu nyrs ar unwaith.

### *Symptomau cael y cydbwysedd anghywir o hylifau*

- Teimlo'n flinedig neu'n gysglyd.
- Pen tost.
- Ffitiau.

## Cwestiynau i'w gofyn am therapi hylif IV

Gall y cwestiynau hyn eich helpu chi a'ch teulu neu'ch gofalwyr i drafod hylifau IV â'ch tîm gofal iechyd.

- Beth mae cael hylifau IV yn ei olygu?
- Pam bod angen hylifau IV arnaf?
- Pryd y byddaf yn cael hylifau IV? A fydd yn brifo?
- Am ba mor hir y bydd yn angen i mi gael hylifau IV?
- Sut y caiff fy hylifau eu monitro?
- Sut y bydd hylifau IV yn helpu?

- A oes unrhyw sgîl-effeithiau y dylid cadw golwg arnynt?
- Pa brofion fydd eu hangen?
- A fydd cael hylifau IV yn effeithio ar feddyginiaethau eraill?
- Â phwy y dylwn i siarad os bydda i'n sylwi ar unrhyw broblemau?
- A oes gennych daflen wybodaeth neu a oes gwefan sy'n ymdrin â mater cael hylifau IV?

## Ffynonellau cyngor a chymorth

- Contact a Family, 0808 808 3555, www.cafamily.org.uk

Gallwch hefyd fynd i wefan NHS Choices i gael rhagor o wybodaeth.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1723-5